OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1278 (Cy.123) (C.41)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud - - 10 Mai 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 93(2)(b) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enw

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006.

Cychwyn

2. I'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, daw adrannau 19 i 22 a 24 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i rym ar 11 Mai 2006.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

10 Mai 2006

(**1**) 2003 p.38.
(**2**) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym yng Nghymru ar 11 Mai 2006 adrannau 19 i 22 a 24 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ("Deddf 2003"), sy'n ymwneud â chontractau rhianta a gorchmynion rhianta ar gyfer disgyblion ysgol.

Mae adran 19 yn darparu bod cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn ymrwymo i gontractau rhianta gyda rhiant disgybl neu blentyn.

Mae adran 20 yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau pan gaiff awdurdod addysg lleol wneud cais i lys ynadon am orchymyn rhianta, ar gyfer amgylchiadau pan gaiff y llys wneud gorchymyn ac ar gyfer cynnwys ac effaith gorchymyn.

Mae adran 21 yn gwneud darpariaeth atodol. Mae adran 22 yn darparu ar gyfer hawl i apelio i Lys y Goron yn erbyn gwneud gorchymyn rhianta. Mae adran 24 yn ddarpariaeth ddehongli.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir atynt yn y tabl isod wedi'u dwyn i rym o ran Cymru a Lloegr gan Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

Adran neu Atodlen	*Dyddiad cychwyn*	*O.S. Rhif*
1 i 11	20 Ionawr 2004	2003/3300
18	27 Chwefror 2004	2003/3300
23	27 Chwefror 2004	2003/3300
25 i 29	27 Chwefror 2004	2003/3300
30 i 38	20 Ionawr 2004	2003/3300
39(1) a (2)	20 Ionawr 2004	2003/3300
39(3) (yn rhannol)	20 Ionawr 2004	2003/3300
39(3) (y gweddill)	30 Ebrill 2004	2003/3300
39(4), (5) a (6)	20 Ionawr 2004	2003/3300
46	31 Mawrth 2004	2004/690
53	20 Ionawr 2004	2003/3300
54	31 Mawrth 2004	2004/690
57 i 59	20 Ionawr 2004	2003/3300
60 i 64	27 Chwefror 2004	2003/3300
85(1), (2) a (3) 20 Ionawr 2004	2003/3300	
85(4) (yn rhannol)	20 Ionawr 2004	2003/3300